
Datblygu meddalwedd M813

Patrwm cyflwyno O fis Mai i fis Hydref

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yn archwilio egwyddorion a thechnegau datblygu meddalwedd. Bydd myfyrwyr yn meithrin sgiliau technegol a phroffesiynol a dealltwriaeth ddofn o ddadansoddi, dylunio, profi ac adeiladu meddalwedd, yn ymgysylltu ag amrywiaeth o arferion dylunio o batrymau dylunio i fframweithiau a saernïaeth meddalwedd, ac yn archwilio themâu sy'n dod i'r amlwg ym maes datblygu meddalwedd. Drwy astudio'r modiwl hwn byddant yn datblygu eu gallu i gyflwyno meddalwedd sy'n addas at y diben mewn cyd-destun sefydliadol go iawn

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad o ddatblygu meddalwedd gwrthrych-gyfeiriadol
- gwybodaeth ymarferol sylfaenol am UML
- dealltwriaeth o ddatblygu meddalwedd gwrthrych-gyfeiriadol yn gyffredinol, a Java yn benodol
- dealltwriaeth o batrymau dylunio gwrthrych-gyfeiriadol sylfaenol
- gwybodaeth am rai technolegau ar gyfer integreiddio systemau, gan gynnwys y rheini ar gyfer saernïaeth seiliedig ar elfennau a gwasanaeth-gyfeiriadol yn gyffredinol, a bod yn gyfarwydd â'r rheini sy'n seiliedig ar Java

Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o Amgylcheddau Datblygu Integredig a meddalwedd modelu UML
- ymwybyddiaeth o ddatblygu meddalwedd cyfredol (e.e. datblygu meddalwedd ystwyth, datblygu a arweinir gan fodel neu ddatblygu a arweinir gan brawf).

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus: 30

Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Oriau yr amcangyfrifir fesul wythnos addysgu:	6